Credwn mewn byw cyn marw

© Cymorth Cristnogol 2008

Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851
Rhif cwmni 5171525

Wythnos Cymorth Cristnogol
11 – 17 Mai 2008

Gwasanaeth cyflawn ar gyfer yr arweinydd

Croeso

Ymatebion agoriadol

Arweinydd	Tyrd, Ysbryd Glân.
Pawb:	**Tyrd, Arglwydd bywyd.**
Arweinydd:	Yr wyt ti'n creu posibiliadau newydd bob dydd.
Pawb:	**Yr wyt ti'n llenwi'r greadigaeth â bywyd ac â gobaith.**
Arweinydd:	Yr wyt wedi gosod posibiliadau mawr ym mhob un ohonom.
Pawb:	**Yr wyt ti'n ysbrydoli pobl i drawsffurfio'r byd.**
Arweinydd:	Tyrd, Ysbryd Glân, i ganol ein haddoliad.
Pawb:	**Tyrd, Arglwydd bywyd, treiddia i'n bywydau ni.**

Cân neu emyn o fawl / i gasglu pawb ynghyd

Cyflwyniad

Arweinydd: Heddiw yw'r Sulgwyn, ac yn ein haddoliad dathlwn ddyfodiad yr Ysbryd Glân i fyd anghenus. Mae hefyd yn ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol, felly byddwn yn dathlu amrywiaeth gwaith Cymorth Cristnogol yn nerthu pobl yng nghymunedau tlawd ein byd. Byddwn yn clywed straeon sut mae ymgyrchu a gwaith datblygu yn gwneud gwahaniaeth yn Ghana a Bangladesh, a sut y mae rhai o bobl fwyaf anghenus y byd yn wynebu effeithiau newid hinsawdd. A byddwn yn cael cyfle i ymateb trwy weddïo, rhoi a gweithredu.

(Dewiswch rhwng defnyddio y Sgwrs ar gyfer pob oed neu Stori o Ghana yn y darn yma o'r gwasanaeth.)

Sgwrs ar gyfer pob oed

Ar gyfer y sgwrs hon bydd angen drych, lluniau o Fatimata a Musah (fe'u ceir ar set posteri'r eglwys neu o'r oriel luniau ar y **DVD-rom Empowering People*), ac arwydd gyda'r geiriau canlynol wedi eu printio o chwith arno :***

in adyg wuD dyrbsY eaM

- Gofynnwch i'r gynulleidfa ddychmygu sut fyddai bywyd heb ysgolion lleol. Beth fyddai teimlad y plant am fethu mynd i'r ysgol? *(Gofynnwch am awgrymiadau)*
- Efallai y byddai peidio â mynd i'r ysgol yn wych am ychydig. Ond a oes rhywun yn cytuno y byddant wedi diflasu ar ôl ychydig ddyddiau neu wythnosau? Beth pe na bai teganau, '*gameboys'*, '*Xboxes',* cyfrifiaduron, llyfrau na theledu gyda chi? Beth am yr ochr gymdeithasol – a fyddai rhywun yn colli ei ffrindiau? Beth am y pethau yr ydych yn eu dysgu yn yr ysgol? A fyddai unrhyw un yn poeni pe baen nhw ddim yn gallu ysgrifennu neu ddarllen? Pam? Pa broblemau fyddai methu darllen neu ysgrifennu yn eu hachosi i chi? *(Gofynnwch i bobl gyflwyno eu syniadau mewn llais uchel)*
- Unwaith yr ydych chi'n medru darllen ac ysgrifennu mae'n anodd meddwl sut fyddai hi i beidio â deall geiriau ysgrifenedig. Efallai ein bod ni'n cael rhyw syniad o hyn pan fyddwn ni'n mynd i lefydd sydd ag iaith neu wyddor wahanol. Er enghraifft fe ddes i ar draws yr arwydd hwn ar fy nheithiau yn ddiweddar - oes rhywun yn gwybod beth y mae'n ei ddweud? *(Daliwch yr arwydd i fyny ond peidiwch â rhoi gormod o amser iddyn nhw ei weithio allan)*
- Tasech chi ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu yn eich iaith eich hunan, fyddech chi ddim yn gallu deall arwyddion na chyfarwyddiadau, na thorri eich enw na darllen llyfrau - ar

gyfer dysgu neu fwynhau. A phan fyddech chi'n oedolyn byddai pobl yn gallu cymryd mantais ohonoch am na fyddech yn medru darllen y rheolau, y deddfau na'r help sydd ar gael i chi. Byddech chi'n methu cyfri'r arian yr oeddech yn ei dalu neu'n ei dderbyn. A byddech chi ddim yn cael swydd dda iawn.

- Mae Fatimata yn 11 mlwydd oed ac mae Musah ei brawd yn 13. Maen nhw'n gwybod beth yw methu mynd i'r ysgol. Maen nhw'n byw gyda'u mam a'u tad mewn pentref o'r enw Kpachelo yn Ghana – gwlad yng ngorllewin Affrica. *(Dangoswch luniau Fatimata a Musah.)*
- Mae Ghana yn wlad brydferth ond mae'n dlawd iawn ac nid oes gan lot o bobl ddigon o fwyd i'w fwyta na moddion pan fyddan nhw'n sâl. Hefyd does dim digon o ysgolion yn Ghana. Mae llawer o blant yn gorfod cerdded milltiroedd i'r ysgol bob dydd. Roedd rhai, fel Fatimata a Musah, ddim yn gallu mynd i'r ysgol am nad oedd digon o le yno i'r plant i gyd. Gall unrhyw un ddychmygu cerdded milltiroedd i'r ysgol bod dydd? *(Gofynnwch i rai o'r plant sydd yn y gynulleidfa faint o amser y mae hi'n cymryd iddyn nhw gyrraedd yr ysgol, ac os ydyn nhw'n cerdded, dal y bws neu fynd yn y car.)*
- Mae Musah yn gwybod yn iawn am y problemau sy'n codi o fethu darllen ac ysgrifennu. 'Pan oeddwn i'n gweld plant eraill yn yr ysgol roeddwn i'n drist oherwydd byddwn i'n meddwl am fy nyfodol i,' meddai Musah. 'Roeddwn i'n meddwl fe fyddant yn gwneud yn dda ond byddwn i ddim"'.
- Ond y newyddion da yw bod rhywfaint o ddyled Ghana, yr arian oedd arnyn nhw i wledydd eraill, wedi cael ei dileu yn ddiweddar, diolch yn rhannol i ymgyrchu Cristnogion yn y wlad hon - rhai sydd yma heddiw 'falle *(Gofynnwch a oedd rhywun wedi bod yn rhan o'r ymgyrchoedd Jiwbilî 2000 neu Dileu'r Ddyled).* Golyga hyn bod gan lywodraeth Ghana fwy o arian i'w wario. Roedd pobl Kpachelo am wneud yn siŵr bod yr arian yn cael ei wario'n ddoeth i gael beth oedd ei angen ar eu pentref nhw a oedd yn dlawd iawn. Felly, gyda chymorth mudiad o'r enw SEND, sy'n cael ei gefnogi gan Cymorth Cristnogol, daeth Dumata, mam Fatimata a Musah, ac eraill yn ei chymuned at ei gilydd a gofyn i'r llywodraeth godi ysgol fwy a gwell yn eu pentref. Fe wnaethpwyd hynny, a nawr mae pob plentyn yn Kpachelo yn gallu mynd i'r ysgol.
- Mae Fatimata a Musah yn mwynhau mynd i'r ysgol bob dydd. 'Rydw i wirioneddol eisiau bod yn yr ysgol', meddai Fatimata. 'Rwy'n meddwl bod hynny'n dda imi oherwydd fydda i'n gallu cael swydd a phrynu pethau i mi fy hun a'r teulu.' Ond dydyn nhw ddim yn gwbl hapus o hyd. 'Yr hyn fuasai'n fy ngwneud i'n fwyaf hapus,' meddai Musah, 'yw tase pob plentyn ym mhob cymuned yn Ghana yn gallu mynd i'r ysgol.'
- Un ffordd y medrwn ni helpu hyn i ddigwydd yw trwy godi arian yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol i gefnogi mudiadau fel SEND sydd yn helpu pobl i ofyn am yr hyn sydd ei angen arnynt. Mae rhai syniadau ynglŷn â chodi arian ar eich tudalennau gweithgarwch.
- Nawr yn ôl at yr arwydd hwn *(Codwch yr arwydd unwaith eto).* Mae gen i ddyfais arbennig fan hyn y gallwn ni ei ddefnyddio i ddeall y neges, ond mae angen gwirfoddolwr i'm helpu – rhywun sy'n mynd i'r ysgol ac yn gallu darllen. *(Gwahoddwch blentyn i ddod i ymuno â chi. Daliwch y drych o flaen yr arwydd a gofynnwch i'r plentyn ddarllen y neges y maen nhw'n ei weld yn y drych.)*
- 'Mae Ysbryd Duw gyda ni.' Chi'n gweld, mae Duw yn gwybod bod cyfathrebu a deall yn bwysig iawn. A heddiw yn ogystal â dechrau Wythnos Cymorth Cristnogol yr ydym yn dathlu'r Sulgwyn hefyd. Fel y mae ysgol yn helpu plant i gyfathrebu a deall y byd a'i gilydd, rydym yn cofio heddiw sut y gwnaeth yr Ysbryd Glân nerthu'r disgyblion a'u galluogi i siarad mewn llawer o ieithoedd fel bod pawb yn medru eu deall. A bydd yr un Ysbryd Glân a newidiodd y disgyblion yn rhoi i ninnau nerth a dewrder os gofynnwn ni amdanyn nhw, fel ein bod ni'n medru siarad a gweithredu yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder yn ein byd, a sefyll ochr yn ochr â phobl fel Fatimata a Musah.

Mae 'Rheolau ysgol!', taflen waith sy'n gysylltiedig â'r stori hon, y gellir ei llungopïo , ar gael ar y **DVD-rom Empowering People.**

Stori o Ghana

Fe allech arddangos y poster o Fatimata a Dumata, neu dangos lluniau o oriel luniau'r ***DVD-rom Empowering People*** *tra bod y darn yma'n cael ei ddarllen allan.*

Darllenydd Mae Fatimata yn 11 mlwydd oed ac mae Musah ei brawd yn 13. Maen nhw'n byw ym mhentref Kpachelo yn Ghana. Mae Ghana yn wlad brydferth, ond mae'n dlawd iawn ac mae prinder ysgolion. Roedd ysgol Kpachelo yn arfer bod yn fach iawn ac roedd angen ei thrwsio. Roedd llawer o blant, gan gynnwys Musah a Fatimata, yn methu mynd i'r ysgol gan nad oedd digon o le yno i holl blant y pentref. 'Pan oeddwn i'n gweld plant eraill yn yr ysgol roeddwn i'n drist oherwydd byddwn i'n meddwl am fy nyfodol i,' meddai Musah. 'Roeddwn i'n meddwl fe fyddant yn gwneud yn dda ond byddwn i ddim"'.

Y newyddion da yw bod rhywfaint o ddyled Ghana, yr arian na fedrai'r llywodraeth ei ad-dalu, wedi cael ei dileu yn ddiweddar, diolch yn rhannol i ymgyrchoedd Jiwbilî 2000 a Dileu'r Ddyled. Roedd hyn yn golygu bod gan lywodraeth Ghana fwy o arian i'w wario. Roedd pobl Kpachelo am wneud yn siŵr bod yr arian yn cael ei wario'n ddoeth i gael yr hyn oedd ei angen ar eu pentref, sy'n dlawd iawn. Felly, gyda chymorth mudiad o'r enw SEND, sy'n cael ei gefnogi gan Cymorth Cristnogol, daeth Dumata, mam Fatimata a Musah, ac eraill yn ei chymuned at eu gilydd a gofyn i'r llywodraeth godi ysgol fwy a gwell yn eu pentref nhw fel bod y plant lleol i gyd yn gallu mynd yno. Ac o'r diwedd fe wnaethon nhw hynny.

Nawr mae Fatimata a Musah yn mwynhau mynd i'r ysgol bob dydd. 'Rydw i wirioneddol eisiau bod yn yr ysgol', meddai Fatimata. 'Rydw i'n meddwl bod hynny'n dda imi oherwydd y mae'n golygu y bydda i'n gallu cael swydd a phrynu pethau i mi fy hun a'r teulu.' Ond dydyn nhw ddim yn gwbl hapus o hyd. 'Beth fyddai'n fy ngwneud i'n fwyaf hapus,' meddai Musah, 'yw tase pob plentyn ym mhob cymuned yn Ghana yn gallu mynd i'r ysgol.'

Cân: Alelwia (De Affrica)

Gweddi o fawl

Arweinydd: Dduw tragwyddol,
Molwn di am dy gariad sy'n trawsffurfio.
Y cariad a dywalltwyd ar dy ddisgyblion ar ddydd y Pentecost,
Ac a gynigir yn rhad i ninnau yn awr.

Molwn di am dy Fab,
Yr hwn, yn ei eiriau a'i weithredoedd, a ddaeth a newydd da i'r tlodion.

Molwn di am yr Ysbryd sy'n newid bywydau,
Ac am y llu o fywydau a newidiwyd drwy Cymorth Cristnogol.

Dyro i ni ddwylo a chalonnau agored i dderbyn rhodd dy Ysbryd Glân,
Ac agor ein llygaid a'n clustiau i ganfod dy Ysbryd ar waith yn y byd heddiw.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu.
Amen.

(Dewiswch rhwng defnyddio y **video: *Christian Aid in Bangladesh* sydd ar** gael ar y **DVD- rom *Empowering people*** neu Stori Rekha yn y darn yma o'r gwasanaeth.)

Stori Rekha

Darllenydd: Mae diffyg dŵr glân yn broblem ym mhob rhan o Bangladesh. Yn ardal yr arfordir yn ne orllewin y wlad mae lefelau'r môr yn codi, yn rhannol oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae cyflenwadau a oedd yn llawn o ddŵr ffres bellach yn llawn o ddŵr hallt, ac mae'n rhaid cerdded hyd at 24 awr weithiau i ddod o hyd i ddŵr yfed glân. Gall gwragedd dreulio oriau yn cario potiau dŵr trwm i'w teuluoedd, tra bod plant yn colli allan ar eu haddysg.

Mewn un pentref roedd Rekha Biswas, gwraig leol 29 mlwydd oed, eisiau gwella'r sefyllfa. Ymwelodd â phob teulu yn ei phentref, er mwyn eu perswadio i gydweithio i ddatrys y broblem. Os nad oedd y penteulu yn barod i wrando roedd hi'n siarad â'r wraig. Ar ôl lobïo'n gyson am flwyddyn llwyddodd i gael pob teulu yn y pentref i ymuno â'r *Pani Parishad*, cyngor dŵr y pentref. Trwy'r *pani parishad* dysgodd pobl sut i gasglu dŵr glaw gan ddefnyddio tanciau syml a photiau, sy'n rhoi cyflenwad o ddŵr glân i'r gymuned ar gyfer yfed a golchi. Esbonia Rekha: 'Rydyn ni'n rhoi hyfforddiant i helpu pobl i ddeall beth sydd ei angen arnynt a sut i'w gael. Ond yn bwysicach maent yn dod i ddeall y gallan nhw wneud pethau drostynt ei hunain.'

Gyda chymorth mudiad sy'n bartner i Cymorth Cristnogol, Canolfan Astudiaethau Pellach Bangladesh (BCAS), mae'r *pani parishads* yn darparu fforwm i gymunedau ledled Bangladesh i ddatrys eu problemau. Fel y dywed Rekha wrth bobl: 'os dônt at ei gilydd, gallant gyflawni pethau fyddai'n amhosibl iddynt eu gwneud ar eu pen eu hunain'. Bydd yr agwedd yma yn hanfodol wrth i'r wlad geisio delio gydag effeithiau difäol newid hinsawdd.

Gweddi o gyffes

Arweinydd: Dduw'r creawdwr, cyffeswn ein bod wedi niweidio dy greadigaeth di.

Dduw cariadus, gofynnwn i ti faddau i ni am ein bod wedi anghofio ein cymdogion byd-eang.
Dduw'r gwaredwr, gweddïwn am inni gael ein rhyddhau o'r pechod sy'n faich arnom.

Arglwydd trugarha.

Bydded i wynt a fflamau'r Pentecost aflonyddu ein hunanfodlonrwydd.
Deffra ein synnwyr o gyfrifoldeb a thania ein dychymyg.
Dyro i ni hyder i beidio â bod yn drachwantus a hunanol, ond yn sianelau i'th gariad sy'n trawsffurfio.

Arglwydd, clyw ein gweddi.
Amen.

Darlleniad: Actau 2: 1-21

Cân neu emyn sy'n galw ar yr Ysbryd

Darlleniad dewisol: 1 Corinthiaid 12: 3b – 13

(Dewiswch rhwng defnyddio y **video: *Pentecost voices sydd ar*** gael ar y DVD-Rom ***Empowering people*** neu Nodiadau ar gyfer pregeth yn y darn yma o'r gwasanaeth.)

Nodiadau ar gyfer pregeth: Ysbryd sy'n trawsffurfio, pobl a drawsffurfiwyd

Ysbryd sy'n trawsffurfio

Mae'r Pentecost yn dathlu trobwynt mewn hanes. Trwy rodd Duw o'r Ysbryd Glân mae gennym bresenoldeb Duw gyda ni, ynom ni ac yn gweithio trwom ni. Adeg y Pentecost gwelwn allu'r Ysbryd sydd yn trawsffurfio gan:

- **roi bywyd.** Mae'r geiriau Hebraeg *(ruach)* a Groeg *(pneuma)* am 'Ysbryd' hefyd yn golygu 'anadl'; yr un gair a ddefnyddiwyd yn Genesis (2:7) pan anadlodd Duw fywyd i mewn i'r bod dynol cyntaf. Mae rhoi'r Ysbryd i'r gymuned a ddaeth ynghyd adeg y Pentecost yn greadigaeth newydd. Mae gweithred Duw adeg y Pentecost yn golygu dod â bywyd i'r byd, i bob unigolyn a chymuned - proses sydd yn parhau heddiw. Adleisir hyn yng nghenhadaeth Cymorth Cristnogol i roi 'bywyd cyn marwolaeth'.

- **goresgyn rhwystrau.** Adeg y Pentecost cafodd dryswch a datgysylltiad Tŵr Babel (Genesis 11) ei droi o chwith. Chwalwyd ffiniau hil, cyfoeth ac iaith. Clywodd pobl o bob cenedl y Gair yn eu hiaith eu hunain, a rhoddwyd iddynt y gallu i siarad ieithoedd eraill. Daeth yr Ysbryd Glân â chysylltiad, cyfathrebu ac ymdeimlad o berthyn i gymuned fyd-eang ehangach.
- **nerthu pobl.** Trawsffurfiwyd y disgyblion yn llwyr gan yr Ysbryd Glân, gan eu galluogi i fynd allan yn hyderus a chyflwyno'r newydd da. Mae grym yr Ysbryd ar waith ym mhob un ohonon ni heddiw – yn cysuro, adfer ac ysbrydoli. Gwelwn yn straeon Rekha a Dumata sut y mae nerthu unigolion yn gallu trawsffurfio cymuned.

Pobl a drawsffurfiwyd

Mae gwaith yr Ysbryd yn dangos y newidiadau y mae Duw am ei weld yn ei fyd. A neges y Pentecost yw bod Duw yn ein galw a'n harfogi, fel pobl a drawsffurfiwyd, i chwarae rhan yn y genhadaeth hon. Gelwir arnom i:

- **fyw mewn ffordd newydd.** Adeg y Pentecost ganwyd mudiad - pobl a anfonwyd allan i gyhoeddi ffordd newydd o fyw. Mae'r Ysbryd Glân yn ein helpu i weld pethau'n wahanol, i weld pethau a phobl fel y maen nhw mewn gwirionedd. Mae angen i ni herio'r esgusodion cyffyrddus a wnawn am ein ffordd o fyw, a gweld yr anghyfiawnder sydd o'n cwmpas ni. Ydyn ni'n agored i anogaeth yr Ysbryd yn ein bywydau ac yn ein byd?
- **fod yn barod i lefaru.** Adeg y Pentecost cynhyrfwyd y disgyblion gan yr Ysbryd i fynd allan i broffwydo a thystio ar strydoedd Jerwsalem. O ganlyniad ymunodd llawer â hwy. Fel dilynwyr Crist gelwir arnom i gyhoeddi cariad Duw a'r cyfiawnder y mae'n ei hawlio. Ydyn ni'n ddigon dewr i lefaru dros bobl dlawd a phobl yr ymylon? Mae ymgyrchoedd fel Jiwbilî 2000 yn dangos bod trawsffurfio rhyfeddol yn bosibl pan fydd llawer o bobl yn ymuno i godi llais. Rhaid i ni siarad allan heddiw ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd.
- **weithio gyda'n gilydd.** Adeg y Pentecost unodd yr Ysbryd Glân bobl i weithredu a chenhadu. Roedden nhw'n tystio nid gyda geiriau yn unig ond hefyd gyda'u gweithredoedd, gan fynd ymlaen i rannu eu holl adnoddau er mwyn sicrhau nad oedd neb yn eu cymuned mewn angen (Actau 2: 45). Gelwir arnom ninnau i gydweithio i wasanaethu pobl a phwrpas Duw. Cawn ein hatgoffa yn yr epistol ein bod yn dod a doniau gwahanol i'r dasg, ond fe ddônt at ei gilydd er lles pawb (1 Corinthiaid 12:7). Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol mae gan bob un ohonom bethau gwahanol i'w gwneud, ond er lles un achos: trawsffurfio'r byd.

(Dewiswch rhwng defnyddio y **Cân neu emyn sy'n mynegi consýrn** neu / ymateb **neu** ***fideo: Climate change reflection*** *sydd ar* gael ar y DVD-rom ***Empowering people*** yn y darn yma o'r gwasanaeth.)

(Dewiswch rhwng defnyddio y **Gorsafoedd gweddi rhyngweithiol** neu **Gweddïau eiriolaeth** yn y darn yma o'r gwasanaeth.)

Gorsafoedd gweddi ryngweithiol

Cynlluniwyd y gorsafoedd gweddi yma i helpu pobl i weddïo dros y bobl a'r sefyllfaoedd yr ydym yn rhoi sylw iddynt yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Defnyddiwch y syniadau hyn yn unol â gofynion eich cynulleidfa a'ch dull o addoli. Mae rhai o'r gorsafoedd yn darparu pethau i bobl eu gwneud yn unigol, mae'r lleill ar gyfer gweddïo mewn grŵp. Bwriedir i'r cyfnod hwn fod yn un gweddigar, grymus, creadigol a rhydd. Dylid gosod y gorsafoedd o gwmpas yr ystafell cyn i'ch gwasanaeth ddechrau.

Fel cyflwyniad i'r amser gweddi dylai'r arweinydd egluro'r syniad o gael gorsafoedd gweddi a dweud wrth bobl am deimlo'n rhydd i fynd i gymaint o'r grwpiau ag y dymunant. Byddai cael cerddoriaeth dawel yn y cefndir tra bod pobl yn gweddïo yn gymorth, gyda diwedd y gerddoriaeth yn arwydd i bobl fynd yn ôl i'w seddau, os na fyddant wedi gwneud hynny'n barod.

Ymgais y grŵp

Trwy straeon Dumata yn Ghana a Rekha yn Bangladesh rydym wedi clywed am rym pobl wrth gydweithio. Gweddi ar y cyd yw hon, gyda phawb yn ysgrifennu llinell a ysgogwyd gan rywbeth y maent wedi ei glywed yn ystod y gwasanaeth. I baratoi'r orsaf:

- Torrwch siâp fflam (i gynrychioli'r Pentecost) allan o bapur neu garden a glynwch hi ar y wal.
- Rhowch bennau marcio wrth law
- Ysgrifennwch linell gyntaf gweddi ar y fflam
- Arddangoswch y cyfarwyddiadau hyn:

Dathlwch y grym a ddaw o gydweithio a chyd-weddïo.

> **Darllenwch y gweddïau ar y fflam, yna ychwanegwch weddi un llinell a ysbrydolwyd gan rywbeth a glywsoch yn y gwasanaeth.**

Mae'n bersonol

Mae'r orsaf weddi hon yn ein cysylltu â'r bobl yr ydym wedi clywed amdanynt yn y gwasanaeth. I'w pharatoi:

- Arddangoswch luniau o'r bobl a glywsom amdanynt yn y gwasanaeth. Ceir lluniau yn y DVD-rom *Empowering People* ac yn nefnyddiau printiedig Wythnos Cymorth Cristnogol.
- O dan bob llun rhowch bentwr o ddarnau gwlân (e.e. glas i Rekha, gwyrdd i Fatimata, melyn i Musah)
- Rhowch bentwr o ddarnau o wlân coch i gynrychioli pobl yr eglwys.
- Arddangoswch y cyfarwyddiadau hyn:

> **Mae'r gwahanol ddarnau o wlân yn cynrychioli'r person yn y llun uwch eu pennau. Cymerwch edefyn o wlân coch (i'ch cynrychioli chi) ac edefyn o wlân i gynrychioli stori'r person sydd wedi effeithio fwyaf arnoch heddiw neu'r un y medrwch chi uniaethu fwyaf ag ef/hi. Gweddïwch dros y person, ac wrth wneud hynny, plethwch y ddau edefyn a'u clymu fel breichled o gwmpas eich arddwrn. Gall y freichled hon eich atgoffa, ein bod ni i gyd wedi'n cysylltu â'n gilydd, a'ch atgoffa hefyd i weddïo dros y person hwn yn ystod yr wythnos.**

Byd o wrthgyferbyniadau

Mae'r weddi hon yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng ein byd ni a byd y tlodion. Mae'n diolch am yr hyn sydd gennym ac yn gweddïo dros bobl sy'n byw heb angenrheidiau sylfaenol. I baratoi'r orsaf:

- Rhowch gwpan o ddŵr ffres a chwpan o ddŵr hallt ar y bwrdd
- Rhowch label wrth bob un i ddweud p'un ai yw'n ffres neu'n hallt
- Arddangoswch y cyfarwyddiadau hyn:

> **Rhowch flaen eich bys yn y dŵr ffres ar y bwrdd. Wrth i chi ei flasu diolchwch am y dŵr glân, ffres, yr ydym oll yn ei fwynhau.**
>
> **Nawr rhowch flaen eich bys yn y dŵr hallt. Wrth i chi flasu'r dŵr yma, sylwch ar y gwahaniaeth rhyngddo a'r dŵr ffres yr ydych newydd ei flasu. Dychmygwch orfod dewis rhwng cerdded am oriau bob dydd i gasglu dŵr ffres neu yfed y dŵr yma fyddai'n gallu gwneud y teulu yn sâl.**
>
> **Gweddïwch dros holl bobl y byd sydd yn gorfod yfed dŵr hallt neu fudr. Gweddïwch hefyd dros bartneriaid Cymorth Cristnogol megis Canolfan Astudiaethau Pellach Bangladesh yn Bangladesh (BCAS) sydd yn gweithio i roi dŵr glân, ffres, i gymunedau sydd ei angen yn fawr.**

Wal i amddiffyn

Mae'r gweddïau hyn ar y cyd yn gynrychioliad gweladwy o nerth gweddi, a hefyd y gwaith ymarferol sy'n digwydd mewn rhai rhannau o'r byd i baratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd. I baratoi'r orsaf:

- Rhowch gwpanau polystyren neu ganiau diod gwag ar y bwrdd (Dechreuwch gasglu'r rhain ymlaen llaw).
- Rhowch sticeri gwag (mae labeli cyfeiriad yn ddelfrydol) neu nodiadau 'post-it', a pheniau ar y bwrdd
- Arddangoswch y cyfarwyddiadau hyn:

Ysgrifennwch weddi ar sticer am newid hinsawdd.
Rhowch eich sticer ar gwpan neu un o'r caniau gan rhoi hwnnw ar ben rhai eraill i adeiladu wal.
Mae waliau wedi eu gwneud o ddefnyddiau a ailgylchwyd yn cael eu codi mewn mannau i roi ychydig o amddiffyniad rhag effeithiau newid hinsawdd. Mae'r wal hefyd yn symbol o rym a nerth gweddi.

Twb lwcus

Ffordd syml o helpu pobl i ganolbwyntio yn eu gweddïau. I baratoi'r orsaf:

- Ysgrifennwch y canlynol ar ddarnau unigol o bapur: casglyddion Wythnos Cymorth Cristnogol; BCAS, partner Cymorth Cristnogol yn Bangladesh; SEND, partner Cymorth Cristnogol yn Ghana; *pani parishad* (cynghorau dŵr y pentrefi) yn Bangladesh; ysgolion ac athrawon yn Ghana; llywodraeth Ghana; pobl fydd yn dod i ddigwyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol; yr ymgyrch Hinsawdd Newydd.
- Plygwch y darnau papur hyn a'u rhoi mewn blwch.
- Arddangoswch y cyfarwyddiadau hyn:

  Cymerwch ddarn o bapur o'r blwch a gweddïwch dros y person neu'r sefyllfa sydd arno. Wedi i chi weddïo rhowch y darn papur yn ôl yn y blwch ar gyfer y person/grŵp nesaf.

Gweddïau eiriolaeth

Gall y rhai sy'n arwain y gweddïau hyn ofyn i bobl weddïo:

- drosom ni ein hunain, am i ni gael ein hysbrydoli gan awydd Duw am gyfiawnder a bod yn agored i rodd yr Ysbryd Glân, er mwyn i'n bywydau gael eu trawsffurfio i weithio i adeiladu teyrnas Dduw – teyrnas o gyfiawnder a rhyddid.
- dros gyfanrwydd creadigaeth Duw. Cofiwn am ein lle yn y byd ac effaith ein gweithredoedd a'n ffordd o fyw.
- dros bobl yn y byd sydd yn dioddef effeithiau newid hinsawdd; dros y rhai y mae gwres a sychder eithafol yn effeithio ar eu bywydau a'u bywoliaeth; dros y rhai sydd yn colli eu cartrefi mewn llifogydd; dros y rhai sydd yn byw'n gyson o dan fygythiad trychinebau naturiol. Cofiwch yn arbennig am Bangladesh, lle mae pobl dlawd eisoes yn talu pris eithafol am newid hinsawdd er eu bod yn cyfrannu llai nag 1% o allyriadau carbon y byd.
- dros gymunedau sydd yn wynebu her ddyddiol i gael dŵr glân neu angenrheidiau sylfaenol eraill, fel cymuned Rekha yn Bangladesh.
- dros bobl Ghana, yn enwedig dros waith SEND, yn ogystal â chymunedau fel un Fatimata, iddynt gael eu nerthu i godi llais dros yr hyn sydd ei angen arnynt.
- am i lywodraethau ledled y byd ddefnyddio eu grym yn gyfiawn a gwneud anghenion dynol yn brif flaenoriaeth iddynt.
- am i eglwysi'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon ddeffro eu hunain a'u cenhedloedd i'r angen i weithredu ar newid hinsawdd nawr.
- y bydd gweithredoedd pobl fel Rekha a Dumata yn ein hysbrydoli ni i roi, gweithredu a gweddïo dros gymunedau tlotaf y byd, i'w galluogi i ddatrys y problemau a wynebant, a'u rhyddhau i fyw bywyd llawn a gydag urddas.
- dros y bobl a fydd yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol a thrwy'r flwyddyn. Dros bawb fydd yn gweddïo, casglu, rhoi, ymgyrchu neu drefnu digwyddiadau, y cawn ein hysbrydoli gan obaith a derbyn y gwroldeb i weithio i greu byd gwell.

Cân: Codwch eich llais

Cyflwyno ein gweithredoedd a'n rhoddion

Bydd angen i bob person gael cerdyn gweddïo a gweithredu ac amlen Cymorth Cristnogol ar gyfer yr adran hon. Gweler tudalen 1 am gyfarwyddiadau sut i'w harchebu.

Arweinydd: Tyrd, Ysbryd Glân. Symud yn ein calonnau ac ysbrydola ni yn awr i ymateb i anghenion dy fyd wrth i ni gyflwyno ein gweddïau, ein rhoddion a'n lleisiau i ymgyrchu dros newid.

Y rhai sydd wedi cyfrannu lleiaf at greu'r newid yn yr hinsawdd yw'r rhai sy'n dioddef fwyaf o'i effeithiau. Mae gyda ni gyfle yn awr i alw am gyfiawnder hinsawdd i rhai mwyaf diamddiffyn y byd. Llofnodwch y cerdyn os gwelwch chi'n dda, i godi'ch llais dros rai sydd heb lais. Llofnodwch y cerdyn i annog y llywodraeth i weithredu ar frys ar newid hinsawdd.

Fe gawn ni ychydig funudau tawel yn awr wrth i ni wneud y casgliad a llenwi ein cardiau gweithredu. Wrth wneud hyn meddyliwch a gweddïwch dros newid hinsawdd, yr angen i godi llais a sut brofiad fyddai bod yn ddi-lais.

Yma gellir casglu'r cardiau a'r amlenni, neu defnyddiwch y litwrgi canlynol:

Arweinydd: Pan fyddwch wedi gorffen a wnewch chi ddod i'r blaen os gwelwch chi'n dda a rhoi eich amlen yn y blwch casglu a'ch cerdyn gyda'r lleill, er mwyn adeiladu wal o wynebau i gynrychioli ein lleisiau yn cefnogi'r di-lais.

Wrth i bob person ddod ymlaen maen nhw'n dweud:
Dyma fy llais; rydw i'n ei gynnig i'r di-lais.

Unwaith y bydd y cardiau i gyd wedi dod i'r tu blaen, dywedir y geiriau canlynol:

Arweinydd: Ni yw'r llais sy'n llefaru dros y di-lais.
Pawb: **Llawer o leisiau'n ymuno gyda'u cri nas clywir.**
Arweinydd: Gall un llais sy'n dweud y gwir newid cymuned.
Pawb: **Gall llawer o leisiau sy'n dweud y gwir newid y byd.**
Arweinydd: Gall un person sy'n rhoi yn hael newid bywyd.
Pawb: **Gall llawer o bobl sy'n rhoi yn aberthol newid y byd.**
Arweinydd: Mae un llais sy'n offrymu gweddi yn cyffwrdd â chalon y Tad.
Pawb: **Rydyn ni'n llawer o leisiau, yn adleisio'r weddi am gyfiawnder, rhyddid ac am gael ein trawsffurfio.**

Arweinydd: Dywedwn gyda'n gilydd y weddi sydd ar y cardiau, gan roi ein llais i'r di-lais, a'u codi i eiriol dros newid yn ein byd

Gweddi Wythnos Cymorth Cristnogol

Pawb:
Dduw'r gwynt sy'n rhuthro,
ysguba trwy fy nifaterwch.
Dduw'r fflam danllyd,
tania fy nhosturi.
Dduw'r lleisiau lu,
agor fy ngenau i godi llais yn erbyn anghyfiawnder.
Fel trwy dy Ysbryd di
a fy ngweithredoedd i
y caiff y byd hwn ei drawsffurfio.
Amen.

Comisiynu casglyddion a phawb sy'n gweithio yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol

Arweinydd: Heddiw rydym wedi dathlu dyfodiad yr Ysbryd Glân yn nerthu pobl Dduw. Rydym wedi ein hysbrydoli gan stori'r disgyblion a drawsffurfiwyd i fod yn bobl a oedd yn frwd dros newid y byd. Rydym wedi synnu at esiampl Rekha o Bangladesh a Dumata o Ghana, sydd wedi rhoi llais a dyfodol i'w cymunedau. Nawr rydym am ofyn i Ysbryd Duw ein llenwi ninnau wrth i ni ymateb i alwad Duw i fynd allan i'r byd i weithredu ar ran y rhai sydd mewn angen.

Efallai y bydd yr arweinydd am wahodd y rhai sy'n mynd i gasglu yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, neu weithio mewn rhyw ffordd arall, i godi ar eu traed.

Arweinydd: Gweddïwn:

Dduw hollbresennol, diolch i ti am y bobl sy'n gweithredu yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Hwy yw dy draed a'th ddwylo yn ein byd, yn mynd mewn tangnefedd ac yn gwasanaethu mewn cariad. Llanw hwy â'th Ysbryd. Gwna hwy'n ymwybodol o'th fendith, dy nerth a'th bresenoldeb gyda hwy wrth fynd allan.

Helpa hwy i wybod nad ydynt yn sefyll ar eu pen eu hunain: maent yn sefyll gyda phobl ledled y byd sydd yn ceisio heddwch a chyfiawnder.

Helpa hwy i wybod nad ydynt yn mynd ar eu pen eu hunain: maent yn mynd gyda'th ysbryd i adeiladu'r deyrnas.

A helpa hwy i wybod eu bod yn cyflawni pethau rhyfeddol: gyda'i gilydd mae eu gweithredoedd yn nerthu dy bobl ac yn trawsffurfio dy fyd.

Bydd gyda hwy yn ystod yr wythnos hon yw ein gweddi. Yn enw dy Fab gwerthfawr, Iesu Grist.

Pawb: **Amen**

Cân neu emyn i anfon pawb allan / bendith

Ymatebion terfynol

Arweinydd: Yn wyneb tlodi ac anghyfiawnder
Pawb: **Ni ddiffygiwn.**
Arweinydd: Gyda chymunedau ledled y byd
Pawb: **Ni ddiffygiwn.**
Arweinydd: Wedi'n nerthu gan yr Ysbryd
Pawb: **Ni ddiffygiwn.**
Arweinydd: Felly bydded i fendith Duw,
Yr un sy'n rhoi bywyd, yr un sy'n achosi newid, yr un sy'n creu cariad,
Fod gyda ni, yn awr a phob amser.
Pawb: **Amen.**

Gweddi ewcharistig ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol

Arweinydd: Yr Arglwydd a fo gyda chwi,
Pawb: **A hefyd gyda thi.**

Arweinydd: Dyrchefwch eich calonnau.
Pawb: **Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.**

Arweinydd: Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
Pawb: **Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.**

Arweinydd: Sanctaidd a thragwyddol Dduw, mae'n iawn i ni roi ein diolch a'n clod i ti. Ffurfiaist y ddaear o ddim. Gadewaist i'r ddaear ddwyn creaduriaid byw a chreaist ddynolryw ar dy ddelw dy hun. A gwelaist fod y cyfan yn dda iawn. Ymhyfrydaist yn dy greadigaeth ac adlewyrchaist dy ogoniant a'th harddwch yn yr hyn a greaist. Felly, molwn di, gan uno â'r greadigaeth gyfan a dweud

Pawb: **Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,**
Dduw gallu a nerth,
Nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.

Hosanna yn y goruchaf.
Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf.

Arweinydd: Gogoniant a fo i ti, Dduw cariadus. Trwy dy fab, Iesu Grist, dangosaist i ni sut i fyw a sut i garu. Daeth Iesu i gyhoeddi newyddion da i'r tlawd, a bu fyw ymhlith pobl yr ymylon. Yn ei fywyd fe'n rhoddodd mewn perthynas iawn â'n gilydd ac ar y groes fe ddiddymodd ein pechodau. Adeg y Pentecost fel hyn gweddïwn y bydd y ffiniau traddodiadol sydd yn gwahanu'r teulu dynol yn cael eu cymodi ac y byddwn oll yn siarad yr un iaith – iaith cariad.

Pawb: Tyrd Ysbryd Glân

Arweinydd: Ar y noson cyn iddo farw, cymerodd Iesu fara ac wedi iddo ddiolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion gan ddweud, 'Cymerwch, bwytewch, hwn yw fy nghorff sydd er eich mwyn chwi. Gwnewch hyn er cof amdanaf.

Pawb: Tyrd Ysbryd Glân

Arweinydd: Ar ôl swper cymerodd y cwpan gwin, ac wedi iddo ddiolch fe'i rhoddodd iddynt gan ddweud, 'Yfwch ohono, bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau. Gwnewch hyn er cof amdanaf.

Pawb: Tyrd Ysbryd Glân

Arweinydd: Felly cyhoeddwn ddirgelwch y ffydd:
Pawb: **Bu farw Crist.**
Atgyfododd Crist.
Daw Crist drachefn.

Arweinydd: Dduw'r cariad a'r cyfiawnder diderfyn, anfon dy Ysbryd Glân i'n plith a bendithia'r rhoddion hyn, fel wrth inni ddod at dy fwrdd i dderbyn dy gorff a'th waed, y cawn ein nerthu i oresgyn rhaniadau dynol a rhannu'n hael gwledd y bywyd gyda'n brodyr a'n chwiorydd ledled y byd. Gofynnwn hyn yn enw dy Fab, ein hunig waredwr a chymodwr.
Pawb: **Amen.**

Awgrymiadau am emynau a chaneuon o '*Caneuon Ffydd*'

Mawl/ymgynnull

Cenwch i'r Arglwydd (Rhif 37)
Hwn yw y dydd (Rhif 51)

Ymbiliau

Ysbryd y Tragwyddol Dduw (Rhif 601)
Distewch (Rhif 600)

Consyrn/Ymateb

Mae Iesu Grist yn aros (Rhif 870)
O Dduw, ein craig a'n noddfa (Rhif 830)

Bendith/anfon allan

Arglwydd Iesu, llanw d'Eglwys (Rhif 839)
Arglwydd Iôr, fe ddisgwyl d'Eglwys (Rhif 835)

Cân: Alelwia (De Affrica)

Alelwia

Geiriau: Traddodiadol
Cerddoriaeth: Anhysbys

Mae'r gân hon i'w chlywed ar y DVD-rom *Empowering people*

Cân: Codwch eich llais

Tyn ni allan o'n distawrwydd
Gwna ni'n ddewr o blaid y gwan
Ysgwyd ni a rho i'n eiriau
I lefaru ar eu rhan

Codwch leisiau
Gwaeddwch, galwch arno Ef

Tawed canu, peidied dawnsio
Rhy dy aberth heibio nawr
Gwranda'n astud gri cyfiawnder
Sy'n dyheu am doriad gwawr.

Codwch leisiau
Gwaeddwch, galwch arno Ef (x2)

Duw yr Ysbryd Glân disgyn arnaf fi
Rho dy gariad i'm ac fe rannaf fi (x2)
Y newydd da i rai tlawd
Golwg i'r dall
Rhyddid, daw rhyddid

Codwch leisiau
Gwaeddwch, galwch arno Ef (x2)

Geiriau a cherddoriaeth: Andy Flannagan
© Daybreak Music Ltd / administrated by CopyCare Ltd, PO Box 77 Hailsham, East Sussex BN27 3EF

Mae'r gân hon i'w chlywed ar y DVD-rom *Empowering people*

Cydnabyddiaethau

Ysgrifennwyd yr adnoddau hyn gan Liz Baddaley, Lucy Carman, Simeon Mitchell a Kate Tuckett, Adran yr Eglwysi, Cymorth Cristnogol. Caroline Wood (Ghana) ac Amanda Farrant (Bangladesh) o Uned Gwybodaeth a Chyfathrebu oedd yn gyfrifol am y gwaith ymchwil ar y storïau. Cyfieithwyd y deunydd gan Cynthia Davies. Diolch i Andy Flannagan am gael defnyddio 'Codwch eich llais'.

© Cymorth Cristnogol 2008
Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851
Rhif cwmni 5171525